# papur priordy



**MADDAU INNI YR ARBROFION**
**SY’N YMYRRYD Â DY FYD;**
**MYNNWN DDIFA YR HOLL WYRTHIAU,**
**CEISIWN CHWALU POB RHYW HUD:**
**ER IN DREIDDIO DRAW I’R GOFOD,**
**ER IN DYLLU YN Y NEN,**
**PARA ‘RYDYM NI HEB DDEALL**
**AM Y WYRTH TU HWNT I’R LLEN.**

***Dafydd Whittall - Caneuon Ffydd 101***

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 378**
**PAPUR MEHEFIN 2024**

# Gweddi gan ein Gweinidog

## Llythyr at Dduw ar Sul y Tadau

**EIN TAD NEFOL**,



Gair byr ar Sul y Tadau.

Heddiw, fe gofiaf dy fod wedi fy nysgu a'm harwain trwy gydol fy mywyd.

Rwyt wedi fy sicrhau dro ar ôl tro dy fod yn fy ngharu.

Rwyt wedi addo dro ar ôl tro na fyddi di fyth yn fy ngadael.

Fe wnest ti hyd yn oed fynd mor bell â rhoi dy Fab i farw trosof oherwydd mawredd a dyfnder dy gariad tuag ataf.

A fedra i ofyn unrhyw beth yn fwy? Wrth gwrs y medraf, ac rwyf bob amser yn gwneud.

Fel unrhyw dad da, gwna Di fel y gweli di'n dda, hyd yn oed os yw hynny'n golygu na fydda i yn derbyn yr hyn a ofynnaf amdano.

Gobeithio rhyw ddydd y byddaf chwarter y rhiant yr wyt Ti wedi bod i fi.

Os bydd angen unrhyw beth ar fy mhlant, gobeithio y byddaf yno iddynt fel yr wyt Ti wedi bod yno i fi.

Pan fydd gan fy mhlant gwestiynau, gobeithio y byddaf yn glust iddynt fel yr wyt Ti wedi bod yn glust i mi.

Pan fyddant yn profi llawenydd neu siom, gobeithio y byddaf yn medru bod yno ar eu cyfer fel yr wyt Ti bob amser yno i mi.

Felly, rwy'n anfon y gair hwn atat i ddiolch i Ti am fod yn Dad nefol i mi, ac i ddweud cymaint o fraint a bendith yw hi i mi fod yn blentyn i Ti.

Hefyd, hoffwn ddiolch i Ti am roi dy holl sylw i mi pan fyddaf yn siarad â Thi, fel petawn i'n unig blentyn i Ti, er bod gennyt lawer iawn o blant.

Ein Tad, Sul y Tadau Hapus.

**A DIOLCH AM BOPETH.**

**Gweddïwn**



O Dad Sanctaidd gweddïwn dros dadau
yn ein gwlad, ac ymhob gwlad.
Fel yr wyt Ti yn dyner tuag at dy blant,
rho hefyd i dadau gryfder a gras
fel y gallant fod yn ymgorfforiad o dy gariad i'w plant.
A bydded i Dduw hollalluog eich bendithio,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

**Amen**
***(Y Tad Simon Brands ar raglen Songs of Praise)***



## DARLLENIADUR



| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Marc 2:23-3: 6** |
| **Wythnos 2** | **Marc 3: 20-35** |
| **Wythnos 3** | **Marc 4: 26-34** |
| **Wythnos 4** | **Marc 4:35-41** |
| **Wythnos 5** | **Marc 5:21-43** |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**RITA BROWN**
**ac**
**EIRLYS DAVIES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**DALIER SYLW**
**SUL Y MAER**
**Gwasanaeth Dinesig – Y Priordy**
**Bore Sul – 9 Mehefin 2024 – 10 y bore**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 12 Medi 2024**
**Pen-y-bont**



**Y Gynhadledd am 4**

**Cyfarfod yr Hwyr am 7**
**Ceir anerchiad gan**
**JANE HARRIES**
**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**
**Un sydd wedi bod yn ymgyrchydd heddwch a hawliau dynol ar hyd ei hoes**
**Croeso i bawb**



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**APÊL FFYNHONNAU BYW**

*Yn ystod 2023-2024 mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cynnal apêl enwadol i godi arian at waith Cymorth Cristnogol, gan ganolbwyntio'n benodol eleni ar eu gwaith yng Nghholombia.*




**Lansiwyd yr Apêl yn rhithiol ar Nos Fercher 22 Tachwedd 2023. Ymunodd Nathalie Mericer, Rheolwr prosiect Cymorth Cristnogol, yn fyw â'r Lansiad o Golombia.**

**Cewch fwy o wybodaeth am yr Apêl ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.**

# DIWRNOD AMGYLCHEDD Y BYD

**DIWRNOD** Amgylchedd y Byd 2024, a gynhelir ar 5 Mehefin 2024, dan nawdd Y Cenhedloedd Unedig, yw'r diwrnod rhyngwladol mwyaf i'r amgylchedd. Mae'r diwrnod hwn wedi tyfu i fod y llwyfan byd-eang mwyaf ar gyfer allgymorth amgylcheddol. Mae'n cael ei ddathlu gan filiynau o bobl ledled y byd.

Fe'i sefydlwyd ym 1972 a blwyddyn yn ddiweddarach, ym 1973, cynhaliwyd y diwrnod cyntaf gyda'r thema '*Dim Ond Un Daear*'.

Teyrnas Sawdi-Arabia sy'n westai i'r diwrnod eleni. Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar adfer tir, diffeithdiro a gwydnwch rhag sychder.

Fel cenedl sy'n wynebu sychder, mae Sawdi-Arabia'n buddsoddi'n helaeth i geisio datrysiad ac yn gweithredu'n genedlaethol a rhanbarthol ac yn rhyngwladol.





Mae arwain a gweithredu yn allweddol yn y mater hwn wrth i ni wynebu argyfwng triphlyg – argyfwng newid hinsawdd, argyfwng colli bioamrywiaeth a natur ac argyfwng llygredd a gwastraff.



Mae'r argyfwng yn bygwth ecosystemau'r byd. Mae biliynau o hectarau o dir yn cael eu diraddio gan effeithio ar bron i hanner poblogaeth y byd ac yn bygwth hanner Cynnyrch Domestig Gros (CDG) y byd. Byddai rhoi mwy o sylw i adfer tir, diffeithdiro a gwydnwch rhag sychder yn gallu dod â newid er gwell. Ond mae'n rhaid dod i'r afael â'r pethau sy'n achosi hyn, fel newid hinsawdd. Byddai adfer tir, er enghraifft, heb ddod i'r afael â newid

hinsawdd fel rhoi gydag un llaw a chymryd gyda llaw arall. Mae gofyn felly i genhedloedd G20 ddangos arweiniad ar yr agenda hinsawdd yn ei gyfanrwydd.

Tybed a oes gobaith?

Wel, mae gwledydd wedi addo adfer un biliwn o hectarau, ardal yn fwy na Tsieina. Pe baent yn llwyddo, byddai hynny'n gam anferth.

Cawn weld!

Bydd unfed sesiwn ar bymtheg Cynhadledd y Partïon (COP 16) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig i Wrthsefyll Diffeithrwydd (UNCCD) yn digwydd yn Rihyadh, Saudi Arabia 2-23 Rhagfyr 2024. Hon fydd y Gynhadledd fwyaf erioed i'w chynnal a'r gyntaf yn rhanbarth y Dwyrain Canol.

Bydd thema COP 16 yn ymwneud â phwysigrwydd tir sy'n cynnal economïau, bywoliaethau ac ecosystemau. Ar hyn o bryd rydyn ni'n diraddio 100 miliwn hectar o diroedd iach a chynhyrchiol bob blwyddyn ac mae'n pridd yn cael ei ddisbyddu'n gyflym. Bwriad COP 16 yw rhoi sylw i'r heriau hyn. Does ond gobeithio y bydd y gynhadledd yn llwyddo i weithredu'n bwrpasol i amddiffyn ein hadnoddau tir gwerthfawr yn awr ac i'r dyfodol.



**A WYDDOCH CHI beth sy'n digwydd i'ch e-wastraff? Beth sy'n digwydd i'ch hen ffôn, cyfrifiadur neu lechen ar ôl i chi orffen gyda nhw?**



**Mae'n hollbwysig bod y deunyddiau hyn yn cael eu hailgylchu. Fodd bynnag, mae rhai mathau o e-wastraff yn beryglus. Rhaid gwaredu deunyddiau fel mercwri, plwm a chemegion fflam-arafol yn ofalus ac yn briodol, oherwydd gallent ddifrodi'r amgylchedd a bod yn fygythiad i iechyd pobl.**

**TUDALEN BLAEN**



Dyfynnwyd ail bennill emyn gan Dafydd Whittall (1947-2010) ar y tudalen blaen.

Bu Dafydd yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol a mwynhaodd yrfa lwyddiannus ym myd addysg.

Hwn oedd emyn arobryn Cystadleuaeth Emyn 2000, sef cystadleuaeth a drefnwyd gan Deledu Elidir ar gyfer y rhaglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

Mae'r emyn yn trafod thema gyfoes gan ganolbwyntio ar ddysg a gwybodaeth wyddonol.

Mae'n emyn addas i'w ddyfynnu y mis hwn pan ydym yn dathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd.  Mae'n cynnwys neges mor berthnasol.

Dyma'r emyn yn llawn:



Arglwydd mawr y cyfrinachau,
ti yw saer terfynau'r rhod,
artist cain yr holl ddirgelion
a chynlluniwr ein holl fod:
creaist fywyd o ronynnau
a rhoi chwyldro yn yr had;
rhannu, Iôr, wnest ti o'th stordy
amhrisiadwy olud rhad.

Maddau inni yr arbrofion
sy'n ymyrryd â dy fyd;
mynnwn ddifa yr holl wyrthiau,
ceisiwn chwalu pob rhyw hud:
er in dreiddio draw i'r gofod,
er in dyllu yn y nen,
para 'rydym ni heb ddeall
am y wyrth tu hwnt i'r llen.

Arglwydd, cyfarwydda'n hymchwil
a goleua'r deall hwn,
gad in dreiddio i'r hanfodion
ac amgyffred cread crwn:
boed i'n meddwl fedru canfod
gallu mwy na gallu dyn,
a phob arbrawf yn datgelu
gronyn bach yn fwy o'r llun.

# PANED A CHÂN YNG NGHWMNI RHAI O BRESWYLWYR CARTREF PLAS Y DDERWEN A CHARTREF DÔL Y FELIN YNG NGHANA.









**Meleri Llwyd O'Leary…**



### Gwasanaeth PIP Cymorth Cristnogol
### *Bore Sul, 12 Mai 2024*

Ar fore Sul braf ar drothwy'r Haf daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r Priordy i wasanaeth arbennig gan ein pobl ifanc i nodi dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Cafwyd gweddi agoriadol a chroesawodd Beti-Wyn bawb i'r oedfa. Hyfryd oedd clywed y Band yn cyfeilio ac yn arwain y canu. Diolch i Nikki, Jayne, Tomos, Angharad, Ethan a Trystan am gyfeilio mor ardderchog a rhoi sioncrwydd a bwrlwm i'r emynau. Diolchodd Beti-Wyn i'r aelodau newydd yn y Band a ddangosodd barodrwydd i gymryd rhan gan atgoffa'r gynulleidfa bod croeso i aelodau newydd ymuno os oes diddordeb.

Yn dilyn y cyhoeddiadau gan Jayne fe wnaethpwyd y casgliad gan Beca, Sianco, Greta a Miriam. Yna fe ddaeth Tomos Morgans i'r pulpud i'n cyflwyno i ddynes arbennig iawn sef Aline o Burundi. Gwlad fechan iawn yng nghanol Affrica yw Burundi ac yno priododd Aline pan oedd hi'n dal yn blentyn. Profodd Aline drais yn y cartref, digartrefedd a thlodi mawr. Ond roedd cariad Aline tuag at ei phlant a'i phrofiad o gariad Duw wedi ei llenwi â dewrder eithriadol. Roedd hi'n benderfynol o roi gwell bywyd i'w phlant a helpu ei chymdogion.



Canwyd emyn rhif 416 sef 'Y Mae in Waredwr' yna fe ddaeth Iestyn i'r pulpud i roi ychydig o wybodaeth bellach i ni am wlad Burundi. A wyddech chi mai Burundi yw un o wledydd tlotaf y byd yn ariannol? Yno mae 70% o bobl yn byw mewn tlodi a ffermio yw prif fywoliaeth y mwyafrif ond gyda sychder a llifogydd cyson mae bwyd yn brin ac un pryd y dydd y bydd teuluoedd yno yn llwyddo i'w fwyta. Cafodd Aline ei gorfodi allan o'i chartref oherwydd trais a byw mewn tlodi mawr a gofid am les ei phlant.

Yna daeth Ethan i'r pulpud i egluro mwy am Aline a sut ymunodd hi â gweithdy cymunedol a ariannwyd gan Gymorth Cristnogol ac a newidiodd ei bywyd er gwell. Trwy'r gweithdy roedd modd rheoli, arbed

a benthyg arian a chafodd Aline gyfle i sefydlu busnes bach yn gwerthu afocados a chnau mwnci a hefyd i gynilo ychydig o arian i'w chynnal hi a'i phlant.

Syfi oedd y nesaf i'r pulpud a soniodd am beth yw cariad. Nid yw cariad yn genfigennus, yn brolio ac yn llawn o'i hun ond yn hytrach yn amyneddgar, yn garedig, mae'n gobeithio ac yn dal ati.

Arweiniodd Gwenan y gynulleidfa mewn gweddi gan erfyn ar Dduw i'n helpu ni i glywed lleisiau y rhai sy'n dioddef tlodi ofnadwy a gofyn i Dduw ein llenwi ni â gobaith a chariad. Yna cydweddïodd pawb Weddi'r Arglwydd.

Elliw gyhoeddodd yr ail emyn sef emyn rhif 869 'Meddwl am fyd' ac yna daeth Osian i'r pulpud i sôn am lwyddiant busnes Aline. Bellach



roedd Aline yn gallu fforddio bwyd iddi hi ei hunan a'i theulu ac fe brynodd baneli solar fel y gallai ei phlant ddefnyddio golau fel cymorth i astudio a gwneud eu gwaith cartref. Aeth ati hefyd i grasu ei brics ei hunan er mwyn adeiladu cartref cryfach i'w theulu. Trwy Gymorth Cristnogol mae Aline bellach yn gallu cynllunio ei dyfodol.

Yn dilyn hyn dangoswyd ffilm fer am hanes Aline a sut gwnaeth cymdeithas cynilo Cymorth Cristnogol drawsnewid ei bywyd.

Daeth Anna i'r pulpud wedyn i ddweud wrthym beth yw hanes Aline erbyn hyn ac er bod hi a'i theulu'n dal i wynebu heriau mae bellach yn gadeirydd ar y busnes cynilo a benthyca ac yn cefnogi a thrawsnewid bywydau 25 o deuluoedd eraill yr ardal. Meddai Aline, "Yma yn Burundi mae cymydog yn cael ei ystyried fel aelod o'r teulu."

Daeth Trystan i gyhoeddi'r emyn nesaf sef emyn rhif 401 'Mae nghalon mor llon' ac fe groesawodd Beti-Wyn y plant i ddod i flaen y capel. Atgoffodd Beti-Wyn y plant am stori Aline a sut y llwyddodd i drawsnewid ei bywyd gyda help Cymorth Cristnogol. Adeiladodd fywyd newydd iddi hi a'i thri mab nid yn unig trwy ei busnes afocados a'i dyfalbarhad trwy adegau heriol bywyd ond yn llythrennol trwy fynd ati i greu a chrasu briciau a defnyddio'r briciau hynny i adeiladu ei thŷ a'i

chartref ei hunan, un fricsen ar y tro. Gofynnodd Beti-Wyn am help y plant i fynd ati, yn yr un modd ag Aline, i adeiladu wal ond wal allan o lego duplo, a chreu wal weddi. Ar bob bricsen roedd gair arbennig a thasg pob plentyn oedd dewis bricsen o'r bocs, darllen y gair a gosod y fricsen yn y man priodol er mwyn adeiladu'r wal weddi. Roedd y plant wrth eu bodd yn dewis briciau allan o'r bocs ac erbyn diwedd y sgwrs roedd wal o lego duplo wedi ei hadeiladu. Ar friciau'r plant roedd amryw o eiriau arbennig megis 'teulu', 'arian', 'meddyginiaeth', 'bwyd', 'esgidiau', 'cartref', 'help', 'dillad', 'diogelwch', 'iechyd', 'ffrindiau', 'dŵr glân' a 'cariad' sef rhai o'r pethau allweddol sydd eu hangen arnom i fyw bywyd hapus a iach. Roedd plant yr Eglwys gyda'i gilydd wedi llwyddo i adeiladu wal weddi ac yn yr un modd trwy ein bod ni yn cefnogi Cymorth Cristnogol rydym ni'n gallu helpu Aline a'i chymuned i sicrhau eu bod hwy hefyd yn cael y pethau allweddol yma fel eu bod yn cael y cyfle i fyw bywyd llawn cariad, iechyd da a hapusrwydd.



Daeth yr oedfa i ben trwy ganu emyn rhif 871 'Dyro dy gariad i'n clymu' ac yna fe gafwyd y fendith.

Cafwyd gwasanaeth effeithiol a rhagorol gan bobl ifanc ein heglwys i nodi dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol ac i'n hatgoffa am yr holl waith gwerthfawr a'r gwaith o drawsnewid bywydau y mae Cymorth Cristnogol yn ei wneud bob dydd yng nghymunedau tlotaf ein byd. Cofiwch fod modd i chi gyfrannu at waith Cymorth Cristnogol o hyd drwy gyflwyno rhodd yn yr amlen goch Cymorth Cristnogol sydd ym Mhapur y Priordy neu sydd ar gael yn y capel.

**CYFARFODYDD YR UNDEB**

**Eleni cynhelir Cyfarfodydd yr Undeb ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest.**

**Dydd Iau 11 Gorffennaf – Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf 2024**

**Mae croeso cynnes i bawb.**

**Gweler y rhaglen lawn ar Wefan yr Undeb**

# GWASANAETH PIP









♫ ♫



# CWIS Y GWYRTHIAU

## Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â’r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!

## Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!

### Galw’r Disgyblion Cyntaf

## Luc 5: 1-11

Un diwrnod roedd Iesu'n sefyll ar lan Llyn Galilea ac roedd tyrfa o bobl o'i gwmpas yn gwthio ymlaen i wrando ar neges Duw. Gwelodd fod dau --- wedi eu gadael ar y lan tra roedd y pysgotwyr wrthi'n golchi eu rhwydi. Aeth i mewn i un o'r cychod, a gofyn i Simon, y perchennog, ei wthio allan ychydig oddi wrth y lan. Yna eisteddodd a dechrau dysgu'r bobl o'r cwch. Pan oedd wedi gorffen siarad dwedodd wrth Simon, “Dos â'r cwch allan lle mae'r dŵr yn ----, a gollwng y ----- i ti gael dalfa o ------.” “Meistr,” meddai Simon wrtho, “buon ni'n gweithio'n galed drwy'r nos neithiwr heb ddal dim byd! Ond am mai ti sy'n gofyn, gollynga i y rhwydi.” Dyna wnaethon nhw a dyma nhw'n --- cymaint o bysgod nes i'r rhwydi ddechrau rhwygo. Dyma nhw'n galw ar eu partneriaid yn y cwch arall i ddod i'w helpu. Pan ddaeth y rheiny, cafodd y ddau gwch eu llenwi â chymaint o bysgod nes eu bod bron â ----! Pan welodd Simon Pedr beth oedd wedi digwydd, syrthiodd ar ei liniau o flaen Iesu a dweud, “Dos i ffwrdd oddi wrtho i, Arglwydd; dw i'n ormod o bechadur!” Roedd Simon a'i gydweithwyr wedi ------ wrth weld faint o bysgod gafodd eu dal; ac felly hefyd partneriaid Simon — Iago ac ----, meibion Sebedeus. Dyma Iesu'n dweud wrth Simon, “Paid bod ofn; o hyn ymlaen byddi di'n dal ----yn lle pysgod.” Felly ar ôl llusgo eu cychod i'r lan, dyma nhw'n ------ popeth i fynd ar ei ôl.

**Atebion ar dudalen 30**

## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN




## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL



# CWRDD CHWARTER MORIAH, BLAEN-WAUN

**Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod y prynhawn oedd Ffion Fielding (Kynaston gynt), un o blant y Priordy a thestun ei sgwrs ddifyr a diddorol oedd y prosiect Hawlio Heddwch y mae Ffion yn ei arwain.**

*Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, llofnododd bron i 400,000 o fenywod Cymru ddeiseb heddwch a'i chyflwyno i fenywod Unol Daleithiau America. Roedden nhw'n galw am ddyfodol heb ryfel. Ganrif yn ddiweddarach, cafodd Deiseb Heddwch Menywod Cymru ei hailddarganfod a'i dychwelyd yn ei chist i Gymru. Clywsom gan Ffion fel y mae cynnydd aruthrol yn cael i wneud wrth drawsysgrifo'r enwau sydd ar y Ddeiseb. Pob hwyl i'r fenter. Tybed a oes aelod o'ch teulu chi wedi llofnodi'r Ddeiseb?*




**Ffion yn traddodi'r sgwrs ac isod gyda'i rhieni,**
**Hilary a Phil Kynaston**



**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 29 MEDI 2024 am 5**
**Capel Elim, Ffynnon-ddrain SA31 1TY**

**Arweinydd**
**Sioned Page, Blaenycoed**
**Organydd**
**John Evans, Elim**

**Rihyrsals yng Nghapel Elim dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 14 Gorffennaf am 5 a Nos Sul 8 Medi am 5**

**Prif Rihyrsal yng ngofal Sioned Page yng Nghapel Elim**
**Nos Sul, 15 Medi am 5**

***Rhaglenni'r Gymanfa (Sol-ffa neu Hen Nodiant) ar gael gan Huw Michael - £2 yr un***

## GAIR O DDIOLCH



**Derbyniwyd llythyr hyfryd gan ein Maer, Y Cynghorydd Emlyn Schiavone, yn diolch i chwiorydd ein heglwys, Meleri Llwyd O'Leary, Glenys Thomas a Gill Owens am eu parodrwydd i helpu yn y derbyniad ar noson Seremoni Gorseddu'r Maer. Byddai wedi bod yn anodd iawn oni bai am eu help. Trwy eu caredigrwydd nhw roedd y derbyniad yn llwyddiant ac yn achlysur pleserus iawn.**

## RHODD O FEIBLAU



Gwnaed casgliad o £300 yn oedfaon cydenwadol Gŵyl Dewi eglwysi a chapeli Cymraeg Caerfyrddin eleni. Defnyddir yr arian i brynu Beibl yr un i ddisgyblion hynaf yn ysgolion Cymraeg y dref. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i'r oedfaon

**MAER A DIRPRWY FAER EIN TREF A ORSEDDWYD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR TREF AR 3 MAI 2024**



# Ifanc@Priordy



**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd




Cadwch y dyddiad! Mwy o fanylion i ddod cyn bo hir

**Calendr Mehefin/ Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 2 | Ysgol Sul<br>gyda Llinos Jones | PIP i aros yn yr oedfa |
| Mehefin 9 | Ysgol Sul<br>gyda Hanna ac Iwan | PIP |
| Mehefin 16 | Oedfa Deulu Sul y Tadau | Oedfa Deulu Sul y Tadau |
| Mehefin 23 | Dim Ysgol Sul (Pererindod) | Dim PIP (Pererindod yr Ofalarth) |
| Mehefin 30 | Ymweld ag Erw Hir<br>gyda Heledd a Rhys | Ymweld ac Erw Hir<br>gyda Heledd a Rhys |
| Gorffennaf 7 | Parti diwedd tymor | Parti diwedd tymor |
| Gorffennaf 14 | Dim Ysgol Sul – Sul Sbesial yn yr Egin (yn y prynhawn) | Dim PIP – Sul Sbesial yn yr Egin (yn y prynhawn) |

## Chwilotair Llythyren 'Ph' (un llythyren i bob sgwâr)

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | O | I | I | O | L | P | L | P | E | I | P | A |
| L | E | U | N | A | H | P | D | P | H | D | R | P | D |
| E | P | D | I | I | O | S | S | P | I | L | A | H | I |
| A | D | P | L | H | E | E | I | I | L | P | H | I | A |
| I | I | P | R | P | H | I | L | D | A | H | R | L | E |
| H | A | I | P | H | E | H | N | I | D | I | D | I | S |
| P | I | L | L | I | R | H | A | D | E | L | A | S | I |
| D | P | H | I | L | E | M | O | N | L | O | M | T | R |
| I | I | H | M | A | I | I | P | D | P | I | E | I | A |
| I | L | I | E | B | E | O | H | P | H | H | P | A | H |
| E | I | A | I | N | E | P | R | Y | I | O | H | I | P |
| P | H | R | Y | G | I | A | U | E | A | I | A | D | L |
| P | P | I | L | I | P | C | P | L | I | S | R | E | O |
| I | P | P | I | I | P | T | E | E | A | O | O | G | P |

PHILEMON
PHILADELPHIA
PHARO
PHILIPIAID
PHENICE
PHRYGIA
PHOEBE
PHARISEAID
PHANUEL
PHILO
PHILISTIAID

**Gŵyl Ganol Dref**
**Sadwrn, 6 Gorffennaf**
**Cofiwch alw heibio i'n stondin!**

**Sul Sbesial**
**Dydd Sul, 14 Gorffennaf am 1.30 yn yr Egin**
**Gweithgareddau i bawb o bob oed**

Tan tro nesaf, Hwyl Fawr!

*Beti-Wyn*



## CROESAWU AELOD NEWYDD

**Croeso cynnes iawn i'r Parchedig Catrin Ann a dderbyniwyd yn aelod yn ein Hoedfa Gymun ddechrau mis Mai.**

**Diolch iddi hefyd am fod mor barod i ymuno â thim ymroddgar yr organyddion sy'n cyfeilio o Sul i Sul.**



**Eurwen Jones…**



**Y GYMDEITHAS**

**Nos Lun 13 Mai 2025**

***DIGON*** diflas oedd y tywydd ond roedd camu i mewn I'r festri gynnes olau mor groesawgar. Hyfryd oedd gweld nifer o'n ffrindiau o Heol Awst ac Elim ymysg y gynulleidfa.

Agorwyd y cyfarfod gyda Gareth Gravell yn darllen Dameg y Samariad Trugarog a Beti-Wyn yn ein harwain i gydadrodd Gweddi'r Arglwydd.

Y siaradwarig wadd oedd y Dr Mary Thorley ar y testun 'Menywod Caerfyrddin mewn Hanes.'  Mae hanes menywod wedi cael ei anwybyddu a'i esgeuluso yng Nghymru ond erbyn hyn, diolch i allu ac ysgolheictod Dr Thorley, mae hwn wedi'i gywiro.

Traddododd yr hanes yn fywiog a gyda hiwmor am tua 10 o wragedd ein tref ni, Trwy gyfrwng ffilm a lluniau a'i brwdfrydedd heintus hi roedd yn dal ein diddordeb ni o'r stori am y casgliad electig o fenywod a fu'n rhan o fywyd ein tref ni unwaith. Gwragedd cryfion o fyd meddygol, addysg, swffragetaidd, hawliau anifeiliaid a ffeministiaid.

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

Tynnodd ein sylw at y llyfryn 'Taith Gerdded Treftadaeth Menywod Caerfyrddin a gynlluniwyd gan Archif Menywod Cymru'. Ei nod yw ailddarganfod y menywod sydd wedi llywio ein hanes ac adfer eu lle priodol ynddo.

Wrth sgwrsio â'n gilydd wedi'r ddarlith cawsom fwynhau paned a bisgedi, diolch i Alison, Catrin Heledd, Rhian ac Elinor Wyn.

***A'R*** haf o'n blaenau edrychwn ymlaen at wneud y daith gerdded yma. Diolch i Mary Thorley am ei hysgolheictod, ei dyfalbarhad a'i dawn heintus.

# Y GYMDEITHAS












**Papur Priordy yn holi**

**ALED EVANS**



**PP: Rydych wedi mwynhau gyrfa lwyddiannus fel athro, pennaeth a chyfarwyddwr addysg, hamdden a dysgu gydol oes. Pa agwedd ar eich gwaith proffesiynol sydd wedi rhoi'r pleser mwyaf i chi, tybed?**
**AE:** *Mae gyrfa o fewn y byd addysg yn un fuddiol tu hwnt. Cefais y fraint o gael gweithio gydag athrawon hynod greadigol ac ymroddgar. Roedd hi wastad yn bleserus gweld plant yn blodeuo o dan eu harweiniad.*

*Wedyn, tra bûm yn Gyfarwyddwr yng Nghastell-nedd Port Talbot fe lwyddon ni i adeiladu ysgol uwchradd Gymraeg newydd ym Mhort Talbot gan fuddsoddi dros £40m yn y prosiect oedd yn cynnwys ailwampio Ystalyfera yn helaeth. Roedd hi'n bleser o'r mwyaf cael dweud, 'Bore da Ysgol Bro Dur'.*




*Ceisiais sicrhau diwylliant o fewn y Gyfarwyddiaeth o fod yn eiriolwyr dros ein disgyblion mwyaf bregus. Efallai taw hyn yw'r gwaddol yr wyf fwyaf balch ohono.*

**PP: Mae sawl peth yn denu'ch bryd y dyddiau hyn, Aled. Beth am y bêl gron i ddechrau?!**
**AE:** *Rygbi oedd popeth imi ar un adeg a bûm yn chwarae dros dimoedd Cefneithin a Chastellnewydd Emlyn. Ond yna dechreuodd henaint afael a rhaid oedd trosglwyddo'r sgiliau rygbi i'r cae ffwtbol. Teg dweud nad oeddwn y chwaraewr glanaf a fu'n troedio meysydd y Cardiganshire League. Rhywsut datblygodd hynny'n ddileit a dechreuais ddilyn Abertawe a Chymru. Bellach rwyf wedi bod i nifer o feysydd mawr yr Uwch-gynghrair ac wedi dilyn Cymru o Bordeaux, i Trvana, i Doha a Yerevan a sawl man arall hefyd.*

**PP: Ac yna, wrth gwrs, yr Ysgol Farddol ble rych chi'n diwtor…**

**AE**: *Wedi inni symud o Landysul i Langynnwr, edrychais i weld pa wersi gyda'r nos oedd i'w cael yn yr ardal. Roedd y cwrs Découpage yn llawn a'r dosbarthiadau gweu basgedi eisoes wedi dechrau. Yr unig beth gynigiwyd i mi oedd ymuno â'r Ysgol Farddol ac yno rwyf wedi bod ers chwarter canrif. Meddyliwch sut allasai pethau fod petai 'na le wedi bod ar y cyrsiau eraill …*

**PP: Ai rhywbeth mwy diweddar yw barddoni i chi neu a fu yn y gwaed o ddyddiau cynnar?**

**AE:** *Roedd fy hen daid, Thomas Roberts o Ddinas Mawddwy, yn fardd gwlad ac wedi llunio nifer o englynion nodedig. Roedd e'n ddisgybl brwd ym Mhabell Awen wythnosol Y Cymro a chyhoeddwyd yr englyn hwn o'i waith yn y flodeugerdd, `Beirdd y Babell' dan olygyddiaeth Dewi Emrys.*

*Y Garreg Ateb*

*Craig lafar, carreg i lefain - dy iaith*
*Di yn ôl mewn atsain.*
*Heb un geg, etyb yn gain*
*Yr un geiriau yn gywrain.*

**PP: Buoch yn 'Fardd y Mis' ar Radio Cymru ryw flwyddyn yn ôl. Sut brofiad oedd hwnnw?**

**AE:** *Mae'n wych o beth bod prif orsaf radio'r Gymraeg yn rhoi cymaint o fri ar gerddi a barddoniaeth er mwyn cefnogi ei rhaglenni. Dyw hyn ddim yn digwydd dros Glawdd Offa. Mae'n hollbwysig fod creadigrwydd yn rhan naturiol o'n bywydau a'i fod yn cyfrannu at ddweud pwy ydym ni, yn dweud ein stori. Ond mae 'na sbel i fynd eto. Cymharwch ein sefyllfa â'r Gwyddelod sy'n cynhyrchu rhai o nofelwyr mwyaf ein cyfnod, Colm Tóibín, Eimear McBride, Sebastian Barry, Paul Lynch, Claire Keegan, Kevin Barry, Anna Burns, Paul Murray i enwi dim ond rhai.*

*Mae'r Gwyddelod wedi meddiannu'r wobr Booker yn ystod y degawd diwethaf a thrwy hynny'n dweud eu stori mewn modd mor effeithiol. Nid yw ein stori ni mor llafar.*

**PP: Soniwch ychydig am eich gwreiddiau yng Nghwm Gwendraeth.**
**AE:** *Ray, Roy, Phil 'sdim eisie dweud mwy; Edward H.; Ysgol Sul y Sardis; Cymdeithas yr Iaith; Cefn Sidan; ysbrydion Pont Sbwdwr; Clwb Rygbi Cefneithin; Capel Begewdin, llysywod; losin Siop Elfi; cocos; Cydweli Arms; streic y glowyr; Heol y Mwd a phob craith a chwt sy'n dal i hawlio'u lle.*

**PP: A yw'r ffydd Gristnogol yn bwysig i chi?**
**AE***: Bu imi elwa'n anferthol o fagwraeth ble roedd yr athroniaeth Gristnogol yn ganolog iddi trwy ddylanwad fy rhieni a fy Wncwl Dan oedd yn weinidog yn Nhrimsaran. Mae ffydd, wedyn, yn beth gwahanol iawn. Mae fy mherthynas â honno'n ysgafnach a mwy oriog o lawer. Mae 'na robin goch yn dod i'n gardd ni'n ddyddiol. Weithiau fe ddown ni'n ewn o agos at ein gilydd yn enwedig wrth imi droi'r pridd, dro arall rhyw gadw pellter parchus a wnawn. Efallai taw angen sydd yn ein closio.*

**PP: Rydych yn awdur yn ogystal â bardd a chyhoeddoch chi nofel hanesyddol *Saith Cam Iolo – Tu ôl i Dwyll Iolo Morganwg yn 2016* ac 'Ein gŵyl, ein tref a Iolo' yn 2019 ar y cyd â Tudur Dylan Jones, yn trafod hanes perthynas yr Eisteddfod â Chaerfyrddin. Mae'r teitlau, o bosibl, yn awgrymu prif faes eich diddordeb?**



**AE:** *Mae Iolo Morganwg yn arwr mawr. Ni fu i neb feddu ar weledigaeth mor llachar dros Gymru. Mae agweddau dyngarol Iolo, yn enwedig ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth a'i agwedd at fasnach deg, heddychiaeth a rhyngwladaeth, yn rhai sy'n parhau i fod yn berthnasol a hanfodol i'n cyfnod ni. Fe fyddai'n gresynu at ein hanallu i fynd i'r afael â'r materion hyn.*

**PP: Oes unrhyw waith pellach ar y gweill gennych?**

**AE:** *Mae wastad rhywbeth ar y gweill. Hoffwn gyhoeddi nofel neu ddwy arall, neu fwy. Gyda'r rheini mae'r pleser mwyaf.*

**PP: I gloi, Aled, anghofiwch am bêl-droed a barddoni am funud, oes rhywbeth arall a wnewch i ymlacio tybed, efallai gyda'r teulu?!**
**AE:** *Mae rhedeg yn rhan o'n bywydau ni i gyd ac rwy'n credu bod un marathon arall ar ôl yn y coesau. Cawn weld. Ni'n mwynhau'r theatr a cherddoriaeth a phwy a ŵyr falle daw cyfle am wersi découpage ryw bryd.*

**CWRDD CHWIORYDD**

**Cynhelir Cwrdd Chwiorydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin Nos Fercher, 12 Mehefin 2024 am 7.00 o'r gloch ym Methlehem Newydd, Pwll Trap, Sanclêr.**



**AR Y WE:** **www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***




**Gŵyl Canol Dre**
**CAERFYRDDIN**
**6 Gorffennaf 2024**
**Bydd Stondin gan y Priordy, Heol Awst ac Elim yn yr Ŵyl. Cofiwch alw!**



**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**5 Mehefin**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

## NOSON GAMPUS YN FELINGWM UCHAF!



***OS YDYCH*** chi'n hoff o pitsa, y bwyd poblogaidd o'r Eidal, yna'r Plough yn Felingwm Uchaf yw'r lle i chi – fel y profodd aelodau Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin ynghyd â ffrinidau eraill ar Nos Fercher, 22 Mehefin.

Noson i gymdeithasu oedd hon a chodi arian at Apêl Ffynhonnau Byw, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar yr un pryd. Daeth criw da ynghyd a does ryfedd gan fod yr achos yn un mor deilwng a safon y bwyd yn y Plough mor arbennig. Yn ogystal â'r pitsa cafwyd hefyd bwdin hynod o flasus, y wledd gyfan yn ffrwyth coginio gartref.



I goroni'r noson cafwyd cwis wedi'i baratoi gan Elinor Wyn – cwis wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer y noson ar Gymru a'r Eidal a Chaws. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr – Rhys a Myfanwy, Huw a Mwynwen a Gwenan ac Elliw.

Cafodd pawb docyn raffl ar ddechrau'r noson a sawl un ohonom yn ddigon lwcus i adael gydag anrheg bach hyfryd ar y diwedd.



Mae'n dyled yn fawr i Alison Parsons, gyda chymorth Ffion a Steve a Catrin Heledd, am drefnu noson mor llwyddiannus. Nid ar chwarae bach y mae gwneud hyn. Diolch hefyd i'n Gweindog am ei chefnogaeth ac am y gras bwyd ac i Elinor Wyn am lond trol o hwyl. Cyflwynwyd tusw o flodau gan Alison i Rachael a Jo, perchnogion y Plough, fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am y croeso a'r wledd arbennig a gafwyd.

Y newyddion da oedd ein bod wedi codi £200 at Ffynhonnau Byw i hyrwyddo gwaith mor bwysig – gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol yn Colombia.


***IE'N WIR*** – noson gampus!

# MWYNHAU'R WLEDD YN Y PLOUGH











# EGLWYS PANAGIA PARAPORTIANI, MYKONOS, GWLAD GROEG



**Un o strwythurau pensaernïol mwyaf enwog Gwlad Groeg.**

**Ystyr enw’r eglwys yw clwyd eilaidd gan iddi gael ei hadeiladu ar safle un o glwydi’r waliau cerrig Canoloesol.**

**Mae rhannau o‘r eglwys hardd hon yn dyddio’n ôl i 1425 a chodwyd y gweddill yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a’r ail ganrif ar bymtheg,**

## CORNEL

## CODI GWÊN!

"Rwy'n gobeithio nad oeddech wedi ei gymryd yn bersonol  pan gerddodd fy ngŵr allan yn ystod eich pregeth," meddai'r wraig wrth y pregethwr. "Wel a dweud y gwir, roeddwn yn ei chael hi'n brofiad annifyr braidd," atebodd y pregethwr. "Nid oedd allan o unrhyw amarch i chi," mynnodd y wraig."Mae Ffred  wedi bod yn cerdded yn ei gwsg ers yn blentyn."

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 5 Mehefin 2024 am 7.30**
**yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

***Trefnir cyswllt zoom i'r sawl sy'n methu â bod yn bresennol***

**CWIS Y GWYRTHIAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | gwch | 6 | suddo |
| 2 | ddwfn | 7 | dychryn |
| 3 | rhwydi | 8 | loan |
| 4 | bysgod | 9 | pobl |
| 5 | dal | 10 | gadael |

**Cyfres o sesiynau sy'n archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**


**Addoli a Phregethu Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall**



*Cyfle i archwilio gwahanol fathau o addoliad, ac i ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau*

**Dyddiadau: 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf. Amser a Lleoliad: 7:00 - 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.**

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl Tiwtor: Arfon Jones**



*Cyfle i gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol ar gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono*.

**Dyddiadau: 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf. Amser a Lleoliad: 8:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.**

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

# HWYL YR YSGOL SUL AR Y SULGWYN











# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR

**Mai / Mehefin**

Gwynfor a Janet Davies
Adrian a Gloria Evans    Dennis a Rhian Jones

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mehefin | | Gorffennaf | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Gareth Gravell | | Alison Parsons | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **2** | | **Gorffennaf** | **7** | Meinir Jones |
| | **9** | June Thomas | | **14** | |
| | **16** | | | **21** | Luned Thomas |
| | **23** | Pererindod | | **28** | |
| | **30** | | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **2** | **Bore** | Betsan James a Rachel Davies |
| **Gorffennaf** | **7** | **Bore** | Alwen Owen a Fiona Elias |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **2** | Delyth G Davies | **Gorffennaf** | **7** | Heledd Mai Jones |
| | **9** | Alison Parsons | | **14** | Sul y Cyfundeb |
| ***Sul y Tadau*** | **16** | Y Tadau | | **21** | Peter H Griffiths |
| | **23** | | | **28** | June Thomas |
| | **30** | | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mehefin** | Adrian Evans | **Gorffennaf** | Tim Hayes |

*EIN* **cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Emyr Thomas, Harri Evans a Bronwen Wilkins. Cofion cynnes atoch i gyd.**

**Yn y syrjyri ar Bore Cothi ar Radio Cymru y pengliniau gafodd sylw'r Dr Llinos Roberts. Maen nhw, wrth gwrs, yn rhan bwysig o'r corff a ninnau'n ddibynnol iawn arnynt. Felly, maen rhaid gofalu amdanynt.**



**Mae ymgyrch i geisio cael cofgolofn yng Nghymru fel sydd yn Ffrainc i Owain Lawgoch (milwr wrth ei grefft ac ymhonnwr i Dywysogaeth Cymru a fu farw yn 1378). Bu Kevin Bowen yn seiclo dros yr achos o Lyn Llech Owain yma yn Sir Gâr i Ffrainc. Bu hefyd ar yr un pryd yn codi arian at Glefyd Parkinson. Cafwyd cyfweliad gydag Emlyn Schiavone ar Heno ar S4C sy'n werthfawrogol iawn o'r ymdrech i geisio gwneud bywyd pobl sy'n dioddef o'r clefyd, gan gynnwys cyfaill agos iddo, yn fwy cyfoethog.**

**Roedd Miriam Wyrwoll ymhlith y rhai a holwyd ar y stryd yng Nghaerfyddin gan Newyddion S4C ynghylch y rhoddion dadleuol i ymgyrch arweinyddol Vaughan Gething, sydd bellach yn Brif Weinidog Cymru.**

**Ar Raglen Ffion Dafis ar Radio Cymru cyhoeddwyd Rhestr Fer 4 Categori Llyfr y Flwyddyn 2024 a chafwyd cwmni'r beirniaid, yn cynnwys Tudur Dylan Jones, sydd wedi bod yn darllen a didoli. Bu Dylan hefyd yn sôn am hyn ar Dros Frecwast ar Radio Cymru.**



**Llogyfarchiadau i Gwern O'Leary sy'n un o aelodau Tîm Sêr Caerfyrddin Dan-14 a enillodd nid yn unig bencampwriaeth eu Cynghrair ond hefyd Gwpan eu Cynghrair y tymor hwn. Ardderchog yn wir!**

**Roedd Dewi Snelson, Rhodri Elias a Heulwen Roderick ymysg y beicwyr a fu'n cymryd rhan yn reid feics CARTEN100 – taith**

flynyddol lle mae seiclwyr yn beicio'r 100 milltir rhwng Caerdydd a Dinbych-y-pysgod mewn diwrnod. Eleni roedd CARTEN100 yn dathlu pen-blwydd yn 20 oed. Da iawn chi feicwyr am gadw mor heini!



Bu Pat Jones yn cynnig cliwiau yn yr eitem Pwy sy'n perthyn? ar Raglen Ifan Jones Evans ar Radio Cymru pan mae'r gwrandawyr yn gorfod dyfalu pwy yw'r gwestai cudd. Y gwestai'r tro hwn oedd Megan Eleri Williams, sef merch Pat, sydd yn cael ei hadnabod hefyd ar lafar gwlad fel Megan Tywydd a Megan Bwletin Amaeth.



Ein dymuniadau gorau i Eleri Williams a James Singleton a fydd yn priodi yn y Priordy ar 22 Mehefin 2024 am 1 o'r gloch.  Pob bendith arnynt.

*I GLOI*, llongyfarchiadau i Bronwen Wilkins ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar – ffigwr crwn! Dymuniadau da a gwellhad buan iddi oddi wrth bawb yn y Priordy.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n Gweinidog neu Alun Charles

## CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am golli un o'n haelodau, sef Rachel Ann Evans (Nano) ar 12 Mai 2024 yng Nghartref Awel Tywi (gynt o Heol Llangynnwr, Caerfyrddin).  Ein cydymdeimlad dwysaf â'i phlant Maria ac Andrew a'r teulu cyfan yn eu colled. Bydd teyrnged iddi yn ein rhifyn nesaf.

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Alwen a John Owen ar golli mam John a mam-gu Elain a Lleucu, sef Val Owen, Penderyn, ar 18 Mai 2024.  Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.

## DIOLCH YN FAWR



Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **2** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **9** | ***Bore*** | Gwasanaeth Dinesig gyda'n Gweinidog, Caplan y Maer, Y Cynghorydd Emlyn Schiavone | |
| ***Sul y Tadau*** | **16** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | **23** | ***Drwy'r Dydd*** | Pererindod yr Ofalaeth | |
| | **30** | ***Bore*** | Oedfa Undebol yn Heol Awst gydag Annalyn Davies | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **7** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **14** | ***P'nawn*** | Sul y Cyfundeb | |
| | **21** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **28** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu EW- Erw Hir SC – Sul y Cyfundeb** | | | | | | | | |
| **Mehefin** | | | | | **Gorffennaf** | | | |
| **2** | **9** | **16** | **23** | **30** | **7** | **14** | **21** | **28** |
| **✓** | **✓** | **OD** | **-** | **EH** | **✓** | **SC** | **-** | **-** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

